BRITISH TRANSPORT POLICE

Ein Strategaeth Plismona yn y Gymdogaeth

2022-25

CYNNWYS

CYFEIRIAD STRATEGOL	1-2
2-3	YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU
DATRYS PROBLEMAU	3-4
5	TARGEDU GWEITHGARWCH
DATBLYGU A RHANNU DYSGU	5-6
6-7	DATBLYGU EIN POBL
ADEILADU GALLUOGRWYDD DADANSODDOL	7-8
9-10	HYRWYDDO'R DIWYLLIANT CYWIR
MESUR EFFAITH	10

EIN CYFEIRIAD STRATEGOL

Mae'r strategaeth Plismona yn y Gymdogaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod Plismona yn y Gymdogaeth yn rhan sylfaenol o weithredu plismona ar rwydwaith y rheilffordd.

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymrwymo i sefydlu canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu mewn perthynas â Phlismona yn y Gymdogaeth sydd â chyfres o egwyddorion trosfwaol, oll â'r bwriad i leihau trosedd:

- Ymgysylltu â chymunedau
- Datrys problemau
- Targedu gweithgarwch
- Datblygu a rhannu dysgu
- Datblygu ein pobl
- Adeiladu galluogrwydd dadansoddol
- Hyrwyddo'r diwylliant cywir

Wrth i Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ryddhau ei gynllun plismona, canolbwynt y strategaeth hon yw gweithio gyda phartneriaid a'n cymunedau i fynd i'r afael â'r troseddau a'r digwyddiadau hynny sydd â'r effaith fwyaf ar hyder y sawl sy'n teithio ar neu'n defnyddio rhwydwaith y rheilffordd.

Bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod Plismona yn y Gymdogaeth yn rhan allweddol o gyflwyno'r cynllun plismona. Mae'r strategaeth hon yn gosod cyfres o egwyddorion i leihau troseddau a galwadau i wasanaeth. Mae'n ystyried lefelau nawddogaeth cyfredol rhwydwaith y rheilffordd o ganlyniad i'r pandemig ac yn diogelu Rheilffyrdd Prydain Fawr at y dyfodol.

O fewn yr egwyddorion trosfwaol, gall fod ambell arlliw bach wrth gyflwyno'r egwyddorion o ganlyniad i ofynion ac anghenion lleol. Oherwydd natur unigryw

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae yna orsafoedd ar draws rhwydwaith y rheilffordd â phresenoldeb cynyddol Plismona yn y Gymdogaeth a ffurfiwyd gan dimoedd ymroddedig yn ein lleoliadau sy'n cyflwyno'r bygythiad, risg a niwed mwyaf.

Penderfynir ar y lleoliadau hyn ar sail data defnydd gan deithwyr, mynegai niwed troseddol Caergrawnt, lleoliadau â'r lefelau uchaf o fregusrwydd yn nhermau oedolion a phlant, a defnyddio categorïau diogelwch gorsafoedd yr Adran Drafnidiaeth. Bydd pob un o'n timoedd gweithredol yn cyfrannu i egwyddorion Plismona yn y Gymdogaeth yn absenoldeb galwadau i wasanaeth.

Mae lansio Coladwyr ar draws Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ategu ein hymrwymiad i sefydlu Plismona yn y Gymdogaeth ac i adeiladu mwy o gydweithrediad gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau amrywiol nas clywir yn aml. Swyddogaeth y Coladwr yw ymgysylltu a helpu adeiladu'r partneriaethau lleol sy'n gwneud ein gweithgaredd plismona gweithredol yn effeithiol drwy fwy o gydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth.

YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU

Bydd ymgysylltu effeithiol â'n cymunedau yn ein helpu i ddeall y ffordd orau o gyflwyno gwasanaethau plismona a bydd yn gwella ein gweithgaredd datrys problemau a'n gweithgarwch gweithredol. Mae ein cymunedau'n cynnwys ystod amrywiol o deithwyr, staff y rheilffordd, rhanddeiliaid, manwerthwyr a phartneriaid. Mae pob cyswllt gyda'r rhain yn gadael trywydd.

Mae ein cymunedau'n estyn y tu hwnt i ôl troed y rheilffordd hefyd a dylai ein timoedd weithio gyda thimoedd lleol Plismona yn y Gymdogaeth, awdurdodau lleol a'r trydydd sector sydd eisoes wedi sefydlu cysylltiadau o fewn eu cymunedau lleol.

- Bydd gael presenoldeb gweladwy ar rwydwaith y rheilffordd yn cynyddu ein cydweithrediad a'n hymgysylltiad gyda phartneriaid a chymunedau i leihau trosedd. Bydd hyn yn galluogi trafodaethau adeiladol i helpu ffurfio ein gweithgaredd gweithredol gan sicrhau ei fod wedi ei arwain gan wybodaeth.

- Bydd ein timoedd yn cynnal gweithgaredd gweithredol i gefnogi ymgyrchoedd lleol ac ymgyrchoedd cyfryngau cenedlaethol ar rwydwaith y rheilffordd.

- Byddwn yn gwrando ar ein cymunedau i ganfod sut maent yn dymuno ymygysylltu â Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Bydd ein timoedd yn sicrhau bod sianelau ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu â'n cymunedau rheilffordd.

- Defnyddio ymgysylltiad i nodi blaenoriaethau lleol ac i weithio ar y cyd â chymunedau a rhanddeiliad i gyfeirio ein hymagwedd at ddatrys problemau.

- Cefnogi cymunedau a phartneriaid drwy sefydlu modelau ar sail lle ar draws Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gydweithrediad drwy sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau'r heddlu a phartneriaid i wneud mannau diogel mewn gorsafoedd rheiffyrdd. Bydd ein timoedd yn teilwra eu hymagwedd i ymgysylltiad â chymunedau yn ôl eu hanghenion.

- Bydd ein timoedd yn sicrhau bod yna sianelau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau. Byddwn yn gwrando ar y cymunedau i ddysgu sut maent yn dymuno ymgysylltu â Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

- Rydym wedi ymrwymo i wrando ar ac ymgysylltu â'r cymunedau nas clywir yn aml a'r cymunedau hynny sydd yn draddodiadol yn dewis peidio ag ymgysylltu â'r heddlu i helpu ffurfio gweithgaredd gweithredol. Bydd ein timoedd yn greadigol drwy ddefnyddio'n Grwpiau Cynghori Annibynnol a thrwy gynyddu ymgysylltiad mewn fforymau cymunedol lleol.

- I ddefnyddio'n Grwpiau Cynghori Annibynnol i atgyfnerthu ein hymrwymiad i ymgysylltu â'n cymunedau i'n helpu i gyflanwi ein hamcanion cynlluniau plismona.

- I archwilio cyfleoedd i ymgysylltu â'r cymunedau hynny nad ydynt yn defnyddio rhwydwaith y rheilffordd oherwydd pryder ynghylch trosedd neu diffyg hyder.

DATRYS PROBLEMAU

Datrys problemau sy'n canolbwyntio ar achos y broblem i roi sicrwydd i'n cymunedau drwy ddefnyddio methodoleg datrys problemau, a all ein helpu i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Sut rydym eisiau i'n pobl ar draws Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ddatrys problemau'n effeithiol gyda'n cymdogaethau a'n cymunedau:

- Canolbwyntio ar atal rhagweithiol, gweithio ar y cyd â phartneriaid i fabwysiadau ymagwedd gydweithredol i ddatrys problemau, gan ddefnyddio egwyddorion ar sail lle.

- Defnydd systematig o fodel datrys problemau strwythuredig, defnyddio egwyddorion OSARA (amcan, sganio, dadansoddiad, ymateb, asesiad).

- Bydd ein pobl yn cael hyfforddiant mewn Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblem, gyda sesiynau diweddaru blynyddol.

- I gynyddu ein cynghorwyr datrys problemau tactegol i'w dosbarthu i orsafoedd heddlu i yrru ein safonau a sefydlu datrys problemau wrth wraidd ein holl weithgarwch. Staff rheng flaen yw'r rhain sydd wedi cael hyfforddiant uwch ac a fedr gefnogi timoedd lleoedd mewn gweithgaredd datrys problemau.

- Bydd ein timoedd yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Cynllunio Lleihau Trosedd, Coladwyr a Dadansoddwyr Dealltwriaeth a fydd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i leihau trosedd a chynyddu cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau. Byddant yn darparu cefnogaeth o'r ganolfan data a chronfeydd data eraill yr heddlu i gefnogi gweithgaredd gweithredol rheng flaen.

- Bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cydnabod gweithgarwch datrys problemau yn llwyddiannus drwy gydnabyddiaeth fewnol ac allanol a chynlluniau gwobrwyo, a sicrhau bod cynlluniau ansawdd uchel i ddatrys problemau yn cael eu harchwilio gan Rwydwaith y Tîm Plismona. Bydd hyn yn caniatáu i ni rannu arfer gorau a gweithgarwch gweithredol sydd wedi gweithio'n dda drwy'r Tîm Gwersi ar Ymelwa.

Targedu Gweithgarwch

Bydd gweithgaredd â chanolbwynt yn arwain at ymateb mwy cydlynol gyda'n partneriaid, fel y gallwn wasanaethu'n cymdogaethau yn well.

Sut rydym am ganolbwyntio a blaenoriaethu o fewn cymdogaethau yn ôl anghenion cymunedau, gan ystyried bygythiad, risg, niwed a bregusder.

- Byddwn yn lleihau galwadau i wasanaeth a throseddau drwy dargedu'r troseddwyr sy'n peri'r niwed mwyaf a thrwy weithio ar y cyd â phartneriaid mewn gorsafoedd rheilffordd. Penderfynir ar hyn drwy osod tasgau lleol a bydd ein timoedd yn canolbwyntio eu gweithgarwch ar broblemau parhaus sy'n effeithio ar ein cymuned, ymdrechu i adnabod gwraidd yr achosion yn hytrach na cheisio datrys symptomau yn unig.

- Bydd ein timoedd yn gweithio'n agos â phartneriaid er mwyn cymryd ymagwedd ar sail tystiolaeth i dargedu ymyriadau cynnar a anelwyd at atal, a lleihau dyblygu ymdrechion rhwng partneriaid.

- Bydd ein timoedd yn amlhau eu natur weladwy, hygyrchedd a lleoliad. Bydd y timoedd yn sicrhau eu bod yn adolygu tueddiadau tymhorol, patrymau trosedd a bregusder yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cynllun patrol cynaliadwy mewn lle yn dilyn adborth gan y gymuned a rhanddeiliaid.

- Bod yn glir ynghylch sut mae ymatebion yr heddlu a phartneriaid wedi eu cydlynu a thargedu lleoliadau, dioddedfwyr a throseddwyr.

DATBLYGU A RHANNU DYSGU

Bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithio'n agos â'r Coleg Plismona, y gwasanaeth heddlu ehangach, partneriaid ac academia i nodi a rhannu dysgu ynghylch Plismona yn y Gymdogaeth. Dyma sut byddwn yn rhannu ein dysgu:

- Bydd Rheolwr Plismona yn y Gymdogaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol, lluoedd eraill a phartneriaid diwydiant allanol i harneisio a rhannu arfer gorau. Bydd hyn yn cynnwys arfer gorau o'r tu allan i blismona ac ymgysylltu gyda IAGs a chymunedau i hel daliadau, barn a syniadau i gynyddu cyflwyno ein gwasanaeth.

- Bydd ein timoedd yn fedrus yn eu defnydd o'r llwyfan ar-lein 'Knowledge Hub', a fydd yn hwyluso rhannu arferion rhwng lluoedd ac asiantaethau eraill. A bydd ein pobl yn defnyddio system rheoli dysgu Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i storio deunydd dysgu.

- Mae'r Coleg Plismona yn darparu mynediad, i swyddogion a staff, i gyngor arbenigol ac offer lleihau trosedd drwy eu gwefan. Mae'r 'Knowledge Hub' yn adnodd hanfodol hefyd; bydd gan dimoedd fynediad iddo yn rheolaidd. Bydd eu hadnoddau ar-lein yn codi ymwybyddiaeth o blismona ar sail tystiolaeth ac yn galluogi swyddogion i ddeall a defnyddio ymagweddau ar sail tystiolaeth.

- Rhannu arferion gorau drwy'r Ganolfan Gwersi ar Ymelwa (LXC) mewnol.

- Bydd unrhyw arferion gorau yn cael eu rhannu gan Reolwr Plismona Cyflenwol Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a fydd yn amlygu mewn cyfarfodydd Plismona yn y Gymdogaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

- Presenoldeb yn y fforymau Plismona yn y Gymdogaeth i rannu arferion gorau yn genedlaethol ac i sicrhau cysondeb ymagwedd gyda lluoedd y Swyddfa Gartref yn derbyn ein hamgylchedd plismona unigryw.

DATBLYGU EIN POBL

Bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn buddsoddi amser ac ymdrech i wella gwybodaeth a sgiliau eu pobl o fewn Plismona yn y Gymdogaeth.

Sut y byddwn yn datblygu ein pobl a'n timoedd Plismona yn y Gymdogaeth.

- Bydd gan ein pobl fynediad i weithdai hyfforddi datrys problemau, bydd pob swyddog newydd, cwnstabliaid arbennig a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn derbyn mewnbwn Plismona yn y Gymdogaeth a sesiynau diweddaru blynyddol.

- Bydd gofyn i swyddogion Plismona yn y Gymdogaeth ddatblygu eu gwybodaeth eu hunain o'u hardaloedd lleol. Ymgymerir â hunan ystyriaeth gwybodaeth swyddogion a lefel eu sgiliau i nodi meysydd ar gyfer datblygiad personol drwy'r broses Adolygiad Perfformiad a Datblygiad.

- Bydd modd i arolygwyr amlygu bylchau yng ngwybodaeth a sgiliau eu timoedd yn y cyfarfodydd bwrdd Rhanbarthol a gellir eu dwysáu i'r cyfarfod bwrdd Strategol os oes angen. Bydd y tìm Cefnogi Plismona yn y Gymdogaeth yn monitro yn rheolaidd ac yn ymgysylltu ag arolygwyr i nodi meysydd sy'n peri pryder ac angen gwelliant.

- Mae gan ein pobl fynediad i'r pecyn cymorth Plismona yn y Gymdogaeth ar Fewnrwyd y Llu, sy'n cynnwys canllawiau ar ddatrys problemau, deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal troseddu.

ADEILADU GALLUOGRWYDD DADANSODDOL

Bydd darparu galluogrwydd dadansoddol effeithiol yn sicrhau bod gweithredoedd datrys problemau wedi eu seilio ar ddealltwriaeth dda o wraidd y problemau.

Sut ydyn ni am i'n timoedd feddwl yn ddadansoddol wrth ddelio â phroblemau:

- Bydd gan ein timoedd fynediad i DataHub; bydd hwn yn galluogi ein pobl i gynllunio patrolau, darparu data ar gyfer cyfarfodydd rhanddeiliaid a chael gwybod am y perfformiad diweddaraf a'r tueddiadau troseddol pan fo angen.

- Os oes angen gwaith dadansoddol mwy manwl, bydd gan ein timoedd fynediad i Ddadansoddwyr Dealltwriaeth a Choladwyr. Bydd hyn yn cefnogi cynlluniau patrolio i sicrhau effeithioldeb.

- Mae angen ffynonellau data lluosog ar gyfer datrys problemau yn effeithiol. Mae rhannu data gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau yn unol â phrotocolau rhannu gwybodaeth neu o fewn deddfwriaeth gyfredol, yn hanfodol ar gyfer datrys problemau yn effeithiol a chynaliadwy. Bydd coladwyr yn creu perthynas â phartneriaid i gynorthwyo lledaenu gwybodaeth a chuddwybodaeth i gefnogi Plismona yn y Gymdogaeth.

HYRWYDDO'R DIWYLLIANT CYWIR

Pan yw ein cymunedau'n ymddiried yn yr heddlu maent yn fwy tebygol o ymgysylltu a helpu ein siapio fel gwasanaeth heddlu. Yna bydd cymunedau'n fwy parod i adrodd am drosedd, darparu gwybodaeth a chyfranogi i ddatrys problemau.

Sut rydym am i'n timoedd adeiladu ymddiriedaeth:

- Bydd Plismona yn y Gymdogaeth yn llinyn aur drwy'r adrannau ar draws y llu, gyda throsolwg ar lefel Prif Swyddog drwy fwrdd llywodraethu. Bydd hyn yn creu ymddiriedaeth a hyder i dystiolaethu ein hymrwymiad ar lefel uwch i sicrhau bod modd i bolisïau ac achosion busnes gael eu hadolygu'n effeithiol.

- Dylid gweld pob cysylltiad â'n timoedd fel cyfle i greu ymddiriedaeth a hyder yn y sefydliad. Byddant yn gwneud hyn drwy rannu'n lleol gyda'u cymunedau unrhyw straeon newyddion da ond yn bwysicach (lle bo angen) byddant yn cyflwyno gwelliant.

- Bydd ein timoedd yn darparu cyfleoedd i gymunedau fynegi eu barn a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau mewnol fydd yn bwydo fforymau Rhanbarthol. Bydd timoedd yn greadigol wrth ddefnyddio technoleg rithiol a bod yn agored wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

- I alluogi ein Grwpiau Cynghori Annibynnol i weithredu fel cyfaill allweddol o fewn ein timoedd ac yn ein cyfarfodydd bwrdd i wrando a chyfrannu i drafodaethau.

- Sicrhau bod ein Safonau Proffesiynol yn ymdrin â chwynion gan gymunedau o fewn terfynau amser adrannol perthnasol.

MESUR EFFAITH

- Bydd disgwyl i'n timoedd gofnodi gweithgarwch fel tystiolaeth bod yr egwyddorion yn cael eu cyflawni a bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd bwrdd Plismona yn y Gymdogaeth i sicrhau ei fod yn bodloni'r bwriadau strategol. Caiff y rhain eu samplo ar hap gan y Rheolwr Plismona yn y Gymdogaeth i sicrhau cysondeb ar draws y llu.

- Adolygir yr egwyddorion strategol gan y Prif Swyddog Cynorthwyol ar gyfer Plismona yn y Gymdogaeth yn y cyfarfod bwrdd llywodraethu chwarterol.

- Bydd gan y llu nifer o DPAau i dystiolaethu ein hymrwymiad i Blismona yn y Gymdogaeth a chânt eu cwmpasu o fewn dogfen strategol y llu.

- Byddwn yn cydnabod cyraeddiadau unigol a phartneriaeth drwy system wobrwyo fewnol y llu ac enwebiadau ar gyfer cydnabyddiaeth gwobrau allanol, er enghraifft gwobrwyon Tilley i gydnabod mentrau datrys problemau llwyddiannus gyda'n partneriaid a'n cymuned.

UNDERGROUND
PCSO
8992